O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2011 Rhif 1225 (Cy.159)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A4076 (Pope Hill, Johnston, Sir Benfro) (Cyfyngiadau Traffig a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2011

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *5 Mai 2011* |
| *Yn dod i rym* | *16 Mai 2011* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Hwlffordd – Aberdaugleddau (yr A4076) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi'u bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a'i wahardd ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 16 Mai 2011. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A4076 (Pope Hill, Johnston, Sir Benfro) (Cyfyngiadau Traffig a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2011

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period")* yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 00.01 o'r gloch ar 16 Mai 2011 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu symud oddi yno'n derfynol;

ystyr " y darn o'r gefnffordd"*("the length of the trunk road"*) yw'r darn o'r A4076 Hwlffordd - Aberdaugleddau, Pope Hill, Johnston, yn Sir Benfro, sy'n ymestyn o bwynt 55 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt ei chyffordd â Brickhurst Park i bwynt 1800 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt y gyffordd honno.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr, ar y darn o'r gefnffordd.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 10 milltir yr awr, ar y darn o'r gefnffordd.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darn o'r gefnffordd.

**6.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiad a'r gwaharddiad y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

**7.** Mae darpariaethau Gorchymyn Cefnffordd yr A4076 (Johnston, Hwlffordd, Sir Benfro ) (Terfyn Cyflymder 50 MYA) 2006**(3)** yn cael eu hatal mewn perthynas â'r darn o'r gefnffordd a bennir yn erthygl 2 yn ystod y cyfnodau hynny pan fydd y cyfyngiadau a bennir yn erthygl 3 a 4 yn weithredol.

**8.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 5 Mai 2011

***G MORGAN***
Pennaeth Gwasanaethau Seilwaith Arbenigol
Llywodraeth Cynulliad Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26) ac Atodlen 1 iddi.
**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru
**(3)** O.S. 2006/319/Cy40